

Rhan 5.6 – PROTOCOL YNGHYLCH CYFATHREBU AG AELODAU ETHOLEDIG

CYFLWYNIAD

Mae'r Protocol hwn yn egluro sut y cyfathrebu ag Aelodau o'r Cyngor. Mae'n cwmpasu cyfathrebu rhwng Aelodau a'i gilydd a rhwng yr Aelodau a swyddogion y Cyngor.

Y bwriad yw ateb y cwestiynau canlynol yn i'r Aelodau ac i'r swyddogion:

- Pa wybodaeth a ddarperir?
- Pa gymorth a roddir?
- Sut y rhoddir gwybodaeth a chymorth?
- Pwy sy'n gyfrifol am roi gwybodaeth a chymorth?

Mae'r Protocol yn nodi tri phrif faes:

- **Darparu gwybodaeth**
- **Ymgynghori**
- **Gwasanaethau Cynnal**

Gall pob Aelod hefyd gyrchu gwybodaeth drwy eu gwahanol Gyfarfodydd Grŵp, y Pwyllgor Cyswllt â Llefaryr yr Wrthblaid, a thrwy gysylltu ag Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn uniongyrchol.

Mae staff ac aelodau yn cael eu darparu gyda chyfeiriadau e-bost yr Awdurdod er mwyn cyflawni busnes y Cyngor a ni ddylid defnyddio cyfeiriadau personol. Yn seiliedig ar hyn, bydd cyfathrebu electronig gydag aelodau trwy cyfeiriadau @carmarthenshire / @sirgar a nid e-bost personol yn unol â pholisi defnydd e-bost yr Awdurdod.

1. DARPARU GWYBODAETH

Mae Aelodau yn chwilio am wybodaeth yn y tri chategori bras canlynol:

- **Penderfyniadau'r Cyngor, y Weithrediaeth a Phwyllgorau**
- **Gwybodaeth am Wardiau**
- **Gwybodaeth Gyswllt**
- **Mynediad i Wybodaeth (preifat a chyfrinachol)**

1.1 Penderfyniadau'r Cyngor, y Weithrediaeth a Phwyllgorau

Mae Aelodau am gyrchu gwybodaeth ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor, Pwyllgorau, y Bwrdd Gweithredol ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

O dan y trefniadau gwleidyddol mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau mewn dwy fforwm:

- 1) Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, a
- 2) Chyfarfodydd Penderfyniadau Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

1.1.1 Agenda ac Adroddiadau

Bydd y Cyngor yn:

- Cyhoeddi Agendâu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd
- Cyhoeddi copiâu o bob agenda ac adroddiad ar Fewnrwyd y Cyngor a'r Rhyngrwyd
- Anfon negeseuon E-bost at bob Aelod, yn eu hysbysu bod yr Agendâu ar gael i'w gweld ar y Fewnrwyd (bydd dolen electronig i'r agenda yn cael ei chynnwys yn y neges)
- Darparu copiâu papur o agendâu ac adroddiadau i'w darllen a'u harchwilio yn Lolfa'r Aelodau yn Neuadd y Sir.

Cynhelir **Cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau** yn gyhoeddus,

Mae hawl gan Aelodau i weld papurau pwyllgorau cyhoeddus a gwybodaeth gefndir a nodwyd mewn adroddiad cyhoeddus i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu i unrhyw bwyllgor.

Nid yw adroddiadau eithriedig yn cael eu darparu ond i Aelodau'r Pwyllgor sy'n ystyried yr adroddiad dan sylw. (Gweler hefyd Atodiad 1 o'r protocol hwn ynghylch mynediad i wybodaeth eithriedig/gyfrinachol).

Fodd bynnag, gall Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu dderbyn copiâu o adroddiadau eithriedig y **Bwrdd Gweithredol** a chaniateir iddynt aros yng Nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol wrth i adroddiadau eithriedig gael eu hystyried.

Gellir gweld y protocol o ran presenoldeb aelodau anweithredol yn ystod Cyfarfodydd Ffurfiol y Bwrdd Gweithredol ar y tab Democratiaeth ar y Rhyngrwyd.

Nid yw **Cyfarfodydd Penderfyniadau Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol** ar agor i'r cyhoedd a'r wasg ond gall aelodau anweithredol fod yn bresennol yn arsyllwyr.

Uned y Gwasanaethau Democraidaidd sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r holl Agendâu ac adroddiadau cysylltiedig.

Cyswllt: Uned Gwasanaethau Democraidaidd 01267 224028. Rhif Estyniad Mewnol 4028

1.1.2 Cofnodion a Hysbysiadau ynghylch Penderfyniadau

Uned y Gwasanaethau Democraidaidd sydd hefyd yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi holl Gofnodion y Cyngor a Chyfarfodydd y Pwyllgorau, yn ogystal â Hysbysiadau Penderfyniadau y Bwrdd Gweithredol ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Bydd y Cyngor yn:

- Anfon copiâu o Hysbysiadau Penderfyniadau Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol at bob Aelod trwy e-bost, cyn pen tri diwrnod gwaith wedi'r cyfarfod, ac yn eu cyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor ac ar y wefan.
- Wedyn bydd Aelodau'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael cyfle i "Alw-i-mewn" unrhyw benderfyniad cyn pen 5 diwrnod gwaith arall lle bo sail dilys a difrifol dros wneud hynny, cyn bod modd rhoi'r penderfyniad ar waith.

(Mae'r gweithdrefnau ar gyfer galw-i-mewn wedi'u nodi yn Erthygl 6.6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn.

- Cyhoeddir copïau o gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ar Fewnwyd y Cyngor a'r Rhyngwyd fel arfer cyn pen 10 niwrnod gwaith wedi'r cyfarfod.

Uned y Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am gyhoeddi Cofnodion holl Gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau a Hysbysiadau Penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol / Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Cyswllt: Uned Gwasanaethau Democrataidd 01267 224028. Rhif Estyniad Mewnol 4028

1.1.3 Datganiadau i'r Wasg

Bydd y Cyngor yn:

Cyhoeddi Datganiadau i'r Wasg, yn ymwneud ag eitemau ar yr Agenda a Hysbysiadau Penderfyniadau, cyn y cyfarfod perthnasol ac wedyn.

- Cyhoeddir pob datganiad i'r wasg yn unol â'r Protocol ar gyfer Delio â'r Wasg a'r Cyfryngau
- Cyhoeddir pob datganiad i'r wasg yn ddyddiol ar Fewnwyd y Cyngor ac ar y Rhyngwyd

Yr Adain Marchnata a'r Cyfryngau u sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r holl ddatganiadau i'r wasg.

Cyswllt: Swyddfa'r Wasg 01267 224037 Rhif Estyniad Mewnol 4037

1.2 GWYBODAETH AM WARDIAU

Mae'r Aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

Bydd y Cyngor yn hysbysu'r Aelodau Lleol, drwy e-bost, ynghylch y canlynol:

- **Ceisiadau Cynllunio** – mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i roi gwybod i'r Aelodau am geisiadau cynllunio
- **Cynlluniau cyfalaf newydd** – e.e. cynlluniau priffyrdd, datblygiadau neu adeiladau newydd
- **Gwaith ar raddfa fawr ar eiddo neu gyfleusterau'r Cyngor** – e.e. cynlluniau atgyweirio tai, estyniadau i ysgolion
- **Datblygiadau gwasanaeth/lansio gwasanaethau neu fentrau newydd** – e.e. cynlluniau grant, mentrau amgylcheddol, prosiectau diogelwch ffyrdd, estyniadau i ysgolion
- **Cau cyfleusterau neu atal gwasanaethau** – e.e. cau canolfan hamdden, ysgol neu gyfleuster gofal
- **Newidiadau neu darfu ar ddarparu gwasanaeth** – e.e. cau ffordd, casglu sbwriel

Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau newydd yn eu wardiau etholiadol.

1.3 GWYBODAETH GYSWLLT

Mae'r Aelodau am gael system effeithiol o ddelio â'u hymholiadau/cwynion, ac maent am gael y manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer swyddogion allweddol.

Bydd y Cyngor yn:

Cyhoeddi rhestr o fanylion cyswllt swyddogion allweddol pob Adran. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar ffurf copi papur yn ogystal â bod ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

Gweithredu Gwasanaeth Ymholiadau i'r Aelodau. Bydd Uned y Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn ymholiadau yn uniongyrchol oddi wrth yr aelodau yn bersonol, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy'r Ffurflenni Ymholiadau sydd ar gael ar y Fewnrwyd.

Gofynnir i Benaethiaid Gwasanaeth ymateb i ymholiadau Aelodau cyn pen 7 diwrnod gwaith, fan bellaf, ond yn ddieithriad byddant yn gwneud hynny'n llawer cynt.

Uned y Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am roi Cymorth i'r Aelodau a'r Gwasanaeth Ymholiadau i'r Aelodau.

Cyswllt: Gwasanaethau Democrataidd 01267 224028 Rhif Estyniad Mewnol 4028

1.4 MYNEDIAD I WYBODAETH

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir pa wybodaeth y mae hawl gan Aelodau i'w gweld.

O dan y Ddeddf Diogelu Data cyfyngir ar yr hawl i weld gwybodaeth bersonol. I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad Un i'r protocol hwn a Rhan 4.3 o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n cynnwys Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth.

2. YMGYNGHORI

Mae'r Aelodau am gael cyfle i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu ward.

Bydd y Cyngor yn:

- Ymgynghori â'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â'u ward cyn i'r mater fynd gerbron y Bwrdd Gweithredol/y Cyngor/Pwyllgor i benderfynu arno
- Ymgynghori â'r Aelodau, drwy e-bost neu mewn amgylchiadau eithriadol drwy'r post, gan ganiatáu o leiaf bum niwrnod gwaith i'r Aelod ymateb
 - Bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys trosolwg byr/llythyr sy'n rhoi manylion am ddiben yr ymgynghori, crynodeb gweithredol o unrhyw ddogfennau perthnasol a manylion ynghylch ble mae cael gafael ar ragor o wybodaeth
 - Lle trefnir cyfarfodydd ymgynghori ar gyfer Aelodau, byddant yn derbyn hysbysiad o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod
 - Bydd crynodeb o ymateb yr Aelodau yn cael ei gynnwys ar wynebdden yr adroddiad a ddisberthir gyda'r Agenda

- Ymgynghori ag Aelodau trwy'r fforymau canlynol:
 - Pwyllgorau Craffu – mae gan y rhain rôl o ran datblygu polisi, a defnyddir hwy i ymgynghori ag Aelodau ynghylch datblygiadau polisi a phenderfyniadau sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol/y Cyngor
 - Paneli Ymgynghorol - fforymau yw'r rhain a sefydlwyd gan y Bwrdd Gweithredol i adolygu polisïau presennol a datblygu rhai newydd. Mae aelodau anweithredol yn cael eu cynnwys yn y grwpiau hyn.

Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau yr ymgynghorir â'r Aelodau Lleol ar faterion sy'n mynd gerbron y Bwrdd Gweithredol / Aelodau'r Bwrdd Gweithredol / Y Cyngor a Phwyllgorau ar gyfer penderfyniad.

3. CYMORTH I'R AELODAU

- **Cymorth TG**
- **Gwasanaeth Post**
- **Dyddiadur y Cyngor**

3.1 Cymorth gyda Thechnoleg Gwybodaeth

Mae angen cymorth ar yr Aelodau i ddefnyddio TG, a disgwylir i bob Aelod ddefnyddio'r Cyfarpar TG a ddarperir gan y Cyngor fel man cychwynnol ar gyfer cyrchu gwybodaeth.

Y Gwasanaethau TG sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth TG

Cyswllt: Desg Gymorth y Gwasanaethau TG 01267 246789 Estyniad Mewnol 6789

Darperir hyfforddiant TG anffurfiol un i un a chyngor gan staff TG.

Trefnir Hyfforddiant TG ffurfiol ar gyfer yr holl Aelodau gan yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad.

Yn dilyn pob Etholiad Cyngor Sir cynhelir rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer pob aelod ar draws ystod eang o bynciau, yn cynnwys TG, ochr yn ochr â rhaglen barhaus o ddatblygiad a seminarau

Rheoli Pobl a Pherfformiad sy'n gyfrifol am gynnal Datblygiad yr Aelodau. Cyswllt 01267 246171 Rhif Est. Mewnol 6171.

3.2 Gwasanaeth Post

Mae'r Aelodau am leihau maint y wybodaeth a anfonir atynt drwy'r post.

Bydd y Cyngor yn:

Defnyddio'r e-bost fel prif gyfrwng cyfathrebu â'r Aelodau gan gynnwys anfon hysbysiadau am gyfarfodydd a phenderfyniadau

Darparu twll colomen i bob Aelod yn Uned y Gwasanaethau Democrataidd yn Neuadd y Sir, fel bod modd iddynt gasglu post nad yw'n fater brys yn bersonol. Ni fydd post sy'n cael ei osod yn y twll colomen yn cael ei bostio.

3.3 Dyddiadur Cyfarfodydd y Cyngor

Mae'r Aelodau am i Ddyddiadur y Cyngor gael ei reoli er mwyn ceisio osgoi cynnal mwy nag un cyfarfod ar yr un pryd.

Bydd y Cyngor yn:

Sicrhau bod pob cyfarfod sy'n cynnwys Aelodau yn cael eu nodi yn Nyddiadur y Cyngor

Cyhoeddi Dyddiadur y Cyngor ar y Fewnrwyd ac ar y Rhyngrwyd

Osgoi trefnu unrhyw gyfarfodydd ar yr un diwrnod â'r Cyngor Sir, er mwyn caniatâu ar gyfer y ffaith y gallai cyfarfodydd y Cyngor barhau i mewn i'r prynhawn (Yr eithriad i hyn yw Seminarau Datblygu / digwyddiadau Ymgynghori i'r Holl Aelodau)

Uned y Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am reoli Dyddiadur cyfarfodydd y Cyngor.

Cyswllt: Gwasanaethau Democrataidd ar 01267 224028 Rhif Estyniad Mewnol 4028

Atodiad 1 - Cyfyngiadau ar Fynediad i Wybodaeth

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir pa wybodaeth y mae hawl gan Aelodau i'w gweld:

“Mae hawl gan Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor, i'r graddau y mae'n rhesymol bod angen iddynt weld y wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n briodol fel aelodau o'r Cyngor. Cyfeirir at yr egwyddor hon fel arfer fel egwyddor “angen gwybod” ...ond nid oes hawl gan aelod i chwilota'n ddirwystr drwy ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd ynddo'i hun yn ddigon o reswm i gael gweld gwybodaeth”.

Y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Swyddog Monitro sydd i benderfynu yn y lle cyntaf a oes “angen i'r aelod wybod” er mwyn iddo/iddi weld y wybodaeth. Os bydd anghydweld, gellir cyfeirio'r mater at yr Aelod(au) perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyfarwyddwr, a chael cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro.

Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol ynghylch un o'r trigolion neu fusnes

Mae mynediad yr aelodau i wybodaeth bersonol a gedwir gan y Cyngor ynghylch trydydd parti yn faes cyfreithiol cymhleth, ac felly cynghorir yr aelodau i wneud cais i Swyddog Monitro'r Cyngor am ryddhau'r cyfryw wybodaeth, gan nodi eu rhesymau dros wneud hynny. Wedyn bydd y Swyddog Monitro yn ystyried pob achos ar sail ei rinweddau ei hun, ac yn cynghori'r aelod ynghylch sut gellir defnyddio'r cyfryw wybodaeth ac a ddylent ei rhyddhau i'r cyhoedd.

Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol hefyd bod unigolion yn cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Diogelu Data. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cosbi'n llym (dirwyon o £100,000 a mwy) Gynghorau y cafwyd eu bod yn torri darpariaethau'r Ddeddf.

Mae cyngor manylach ynghylch hawl aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor ar gael oddi wrth y Swyddog Monitro, Linda Rees Jones, drwy ffonio 01267 224010 est. 4010.